Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 - y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Mercher, 18 Gorffennaf 2012**

Amser:
**09:15**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gareth Price**
Clerc y Pwyllgor
02920898409
FinanceCommittee@wales.gov.uk

## Agenda

**Cyfarfod briffio preifat (9:15 - 9:30)**

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon (9:30 - 9:35)

### 2. Effeithiolrwydd Cyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru (9:35 - 10:30) (Tudalennau 1 - 2)

FIN(4) 12-12 - Papur 1- Gwerth Cymru

Alison Standfast, Dirprwy Gyfarwyddwr (Caffael), Gwerth Cymru
Paul Williams, Swyddog Gweithredol Caffael Strategol, Gwerth Cymru

### 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru (10:30 - 11:15) (Tudalennau 3 - 4)

FIN(4) 12-12 - Papur 2 - Y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru

Paul Silk, Cadeirydd, y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru
Yr Athro Noel Lloyd, cyn Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth
Dyfrig John, Cadeirydd Cymdeithas Adeiladu'r Principality

### 4. Papurau i'w nodi (Tudalennau 5 - 11)

FIN(4) 12-12 - Papur 3 - Goblygiadau ariannol Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)
FIN(4) 11-12 - Cofnodion y cyfarfod blaenorol

### 5. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y

**cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**
Eitemau 6, 7 ac 8.

## 6. Ystyried tystiolaeth ar effeithiolrwydd y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru (11:15 - 11:30)

## 7. Ymateb i'r ymgynghoriad ar bŵer benthyca newydd i'r Alban (11:30 - 11:45) (Tudalennau 12 - 19)

## 8. Ymdrin â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2013-2014 (11:45 - 12:00) (Tudalennau 20 - 23)

# Y Pwyllgor Cyllid

**FIN(4) 12-12 – Papur 1**

**Cyfraniad Gwerth Cymru at Gyllid Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru**

**Papur Tystiolaeth gan Alison Standfast**
**Dirprwy Gyfarwyddwr Gwerth Cymru, Llywodraeth Cymru**

---

**Cefndir**

1. Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) sy'n gyfrifol am reoli'r modd y gweithredir rhaglenni'r Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd, sy'n werth ychydig llai na £2 biliwn o gronfeydd yr UE dros y saith mlynedd rhwng 2007 a 2013, er mwyn sbarduno buddsoddiad gwerth dros £3bn i gyd (gan gynnwys arian cyfatebol). Mae hyn yn cynnwys rhaglenni Cydgyfeirio Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a'r rhaglenni Cystadleurwydd llai yn Nwyrain Cymru. Mae Cymru hefyd yn cymryd rhan mewn nifer o raglenni cydweithio tiriogaethol, gan gynnwys rhaglen drawsffiniol Iwerddon/Cymru a reolir gan yr Awdurdodau Gwyddelig.

2. Mae'r rhan helaethaf o'r broses o weithredu'r rhaglenni hyn wedi'i chwblhau. Bron i bum mlynedd ers i gyfnod y rhaglen ddechrau, mae WEFO wedi ymrwymo £1.7 biliwn (91% o gronfeydd yr UE sydd ar gael) i 267 o brosiectau, sy'n golygu bod cyfanswm y buddsoddiad yng Nghymru dros £3.5 biliwn.

3. Mabwysiadodd WEFO ddull cyflawni mwy strategol ar gyfer cyfnod y rhaglen bresennol, gan roi mwy o bwyslais ar amcanion, allbynnau a chanlyniadau er mwyn sicrhau bod y cyllid yn cael ei ddefnyddio'n fwy effeithiol ac osgoi gwastraff a lleihau dyblygiad.

4. Rhoddir mwy o bwyslais hefyd ar gaffael agored a chystadleuol, ar lefel prosiectau, sy'n offeryn pwysig er mwyn cael y gwerth gorau am arian a sicrhau bod manteision cronfeydd yr UE ar gael i bawb a allai gael budd ohonynt, a hynny mewn modd teg ac agored.

5. Dengys data gan WEFO ar y sefyllfa ar 30 Mehefin 2012 mai'r amcangyfrif o gyfanswm y gweithgarwch caffael wrth weithredu'r prosiectau a gymeradwywyd gan yr UE yw £1.17bn, a, lle bo'r ymarferion caffael wedi'u cwblhau, bod y prosiectau a gymeradwywyd wedi dyfarnu contractau gwerth £843m i sefydliadau. Mae dros 1,040 o gontractau (gwerth £462m) wedi'u dyfarnu i'r sector preifat, 280 (gwerth £263m) i'r sector cyhoeddus, a thua 435 (gwerth £118m) i'r trydydd sector.

6. Cyhoeddodd WEFO ganllawiau diwygiedig ar y modelau cyflawni prosiectau a defnyddio caffael ym mis Hydref 2010. Cyflwynodd y canllawiau diwygiedig y cyfle i'r prosiectau ddefnyddio grantiau cystadleuol, a fabwysiadwyd eisoes ar

gyfer prosiect Porth CGGC, fel dull amgen o sicrhau gwerth am arian wrth gyflawni prosiectau.

**Swyddogaeth Gwerth Cymru**

7. Is-adran o fewn Llywodraeth Cymru yw Gwerth Cymru, a'i swyddogaeth yw gwella'r arferion a'r canlyniadau sy'n deillio o'r caffael cyhoeddus gwerth £4.3 biliwn a welir yng Nghymru bob blwyddyn. Mae ei gangen Gwasanaethau Caffael Corfforaethol yn rhoi cyngor, canllawiau a sicrwydd i Adrannau Llywodraeth Cymru. Mae ei gangen Polisi yn rhoi canllawiau cyffredinol i'r sector cyhoeddus ehangach. Ceir cangen o fewn yr Is-adran hefyd sy'n gweithredu rhaglen e-gaffael ledled Cymru, cangen arall sy'n creu ac yn rheoli cytundebau Cymru gyfan ar gyfer nwyddau a gwasanaethau cyffredin, ac un arall sy'n rheoli prosiect Defnyddio Doniau Cymru, a ariennir gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop, er mwyn mynd i'r afael â'r diffygion yng ngalluoedd caffael y sector cyhoeddus.

8. Os mai Llywodraeth Cymru sy'n noddi prosiect, mae Gwasanaethau Caffael Corfforaethol Gwerth Cymru yn darparu gwasanaeth rheoli tendr llawn ar gyfer yr holl weithgarwch caffael.

9. Os mai corff cyhoeddus arall sy'n noddi prosiect, mae Gwerth Cymru yn rhoi cyngor a chanllawiau drwy ei ganllaw cynllunio caffael ar-lein neu ei flwch negeseuon Polisi.

10. Os yw noddwr y prosiect yn sefydliad trydydd sector neu sector preifat, gall Swyddog Datblygu Prosiectau yn WEFO - sy'n gyfrifol am oruchwylio'r prosiect - ofyn am gyngor ac arweiniad gan gangen Gwasanaethau Caffael Corfforaethol Gwerth Cymru ar ran noddwr y prosiect. Mae'r broses hon yn sicrhau bod yna ddull llywodraethu prosiect llawn ar waith ac yr ymdrinnir ag ymholiadau mewn modd effeithiol. Gall yr ymholiadau hyn fod yn rhai cymhleth lle mae gofyn asesu'r broses gaffael yn ofalus ac yn fanwl.

11. Gall yr holl noddwyr weld canllawiau'r modelau 'Noddi a Darparu'. Fe wnaeth Gwerth Cymru gynorthwyo WEFO i gynhyrchu'r rhain. Maent yn cynnwys cyngor a chanllawiau llawn ynghylch yr arferion caffael gorau. Maent hefyd yn cynnwys adran cwestiynau cyffredin.

12. Gall yr holl noddwyr hefyd weld Canllaw Cynllunio Caffael Gwerth Cymru drwy www.prynwchigymru.co.uk. Mae hwn yn cynnig cyngor a chanllawiau cyffredinol ar gaffael ac fe gyfeirir pobl ato o ganllawiau'r modelau Noddi a Darparu.

13. Ym mlynyddoedd cynnar Rhaglenni'r UE cynigiodd Gwerth Cymru hyfforddiant hefyd i staff a Swyddogion Datblygu Rhaglenni WEFO. Yn fwy diweddar, comisiynodd WEFO hyfforddiant gan ddarparwr hyfforddiant allanol oedd dan gontract i Gwerth Cymru. Dilynodd staff WEFO gwrs ar "Gaffael Effeithiol sy'n Cydymffurfio", yn ogystal â 60 o gynrychiolwyr o'r trydydd sector a 68 o'r Awdurdodau Lleol.

Commission on Devolution in Wales
Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru

## Finance Committee
**FIN(4) 12-12 - Paper 2**

# COMMISSION ON DEVOLUTION IN WALES

**Background**

1. The Commission on Devolution in Wales was announced on 11 October 2011 by the Secretary of State for Wales, following a commitment in the Coalition Agreement to "establish a process similar to the Calman Commission for the Welsh Assembly".

**Terms of Reference**

2. The Commission's work has been divided into two parts and the Commission is currently considering the first part of its remit.

3. <u>Part I: financial accountability</u>
   To review the case for the devolution of fiscal powers to the National Assembly for Wales and to recommend a package of powers that would improve the financial accountability of the Assembly, which are consistent with the United Kingdom's fiscal objectives and are likely to have a wide degree of support.

4. <u>Part II: powers of the National Assembly for Wales</u>
   To review the powers of the National Assembly for Wales in light of experience and to recommend modifications to the present constitutional arrangements that would enable the United Kingdom Parliament and the National Assembly for Wales to better serve the people of Wales.

**Membership**

5. The Commission has seven members, four of whom were each nominated by one of the main political parties in Wales. The other three members, including the Chairman, were appointed as independent members. The members of the Commission are:
   - Paul Silk (Chairman) – former Clerk to the National Assembly for Wales and former Clerk in the House of Commons.
   - Dyfrig John – Chair of the Principality Building Society.
   - Noel Lloyd – former Vice-Chancellor of Aberystwyth University.
   - Dr Eurfyl ap Gwilym (nominated by Plaid Cymru) – economist and economic advisor to Plaid Cymru
   - Rob Humphreys (nominated by the Welsh Liberal Democrats) – Director of the Open University in Wales.
   - Sue Essex (nominated by the Welsh Labour Party) – former member of the National Assembly for Wales and Finance Minister in the Welsh Government.

- Nick Bourne (nominated by the Welsh Conservatives) – former member of the National Assembly for Wales and leader of the Welsh Conservative Party.

**Work of the Commission**

6. The Commission launched its Call for Evidence on 25 November; it was issued in hard copy to over 450 stakeholders and was published on the Commission's website (commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk). The Commission received 46 written submissions from a range of stakeholder groups including political parties, business organisations, interest groups, academics and members of the public during this period and has received a further 31 submissions since its call for evidence closed. The Commission also wrote specifically to organisations based in England near the border with Wales to gather their views.

7. The Commission held public events in every local authority area in Wales between March and May and has received a considerable amount of responses to its questionnaire from interested individuals. The Commission has also commissioned opinion poll work to look at the public opinion around fiscal powers for the National Assembly, the results of which will be published shortly.

8. The Commission has met legislators and interest groups in both Scotland and Northern Ireland to discuss the implications of on-going developments in these regions on the Commissions work.

9. The Commission has now begun to discuss its emerging conclusions and consider its package of recommendations based on the evidence it has heard. The Commission will publish its final report in late autumn.

10. A communiqué has been published on the Commission's website following each of its formal meetings to inform the public of the Commission's work.

# Y Pwyllgor Cyllid

## Gwaith Craffu Ariannol ar Fil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)

**Papur i'w nodi: Memorandwm Ariannol**

| **Dyddiad y papur** | **18 Gorffennaf 2012** |
|---|---|

**Gwybodaeth Berthnasol**

Llywodraeth Cymru, *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, 9 Gorffennaf 2012

Llywodraeth Cymru, *Memorandwn Esboniadol - Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, 9 Gorffennaf 2012

Llywodraeth Cymru, Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid, *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, Datganiad Ysgrifenedig gan y Cabinet, 9 Gorffennaf 2012

**Paratowyd y nodiadau briffio hyn gan y Gwasanaeth Ymchwil i'w defnyddio gan y Pwyllgor Cyllid.**

**I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Martin Jennings o'r Gwasanaeth Ymchwil ar rif estyniad ffôn. 8057**
**E-bost: martin.jennings@cymru.gov.uk**

Research Service

## 1. Cyflwyniad

Gosodwyd Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 9 Gorffennaf 2012.[1] Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sy'n gyfrifol am graffu ar y Bil hwn.

**Nodwyd costau blynyddol ychwanegol o tua £120,000, gyda £20,000 o gostau cychwynnol.**

## 2. Dibenion

Diben y Bil yw cryfhau a gwella'r trefniadau atebolrwydd a llywodraethu mewn perthynas ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

## 3. Cynnwys y Bil

**Mae Rhan 1**o'r Bil yn trafod swydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, yn sefydlu trefniadau ar gyfer penodi i'r swydd a chyfnod y swydd ac yn amlinellu camau i'w cymryd i sicrhau annibyniaeth Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraeth Cymru a'r Cynulliad. Mae Rhan 1 hefyd yn darparu mai Archwilydd Cyffredinol Cymru fydd yr archwilydd statudol ar gyfer cyrff llywodraeth leol yng Nghymru.

Mae **Rhan 2** (o adran 13 i adran 28) yn sefydlu Swyddfa Archwilio Cymru fel corff corfforaethol sy'n cynnwys saith aelod, y bydd pump ohonynt yn cael eu penodi gan y Cynulliad, ynghyd ag Archwilydd Cyffredinol Cymru ac un o staff Swyddfa Archwilio Cymru a argymhellwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Yn benodol, mae'r Bil yn rhoi'r cyfrifoldebau a ganlyn i Swyddfa Archwilio Cymru ar ei newydd wedd:

- monitro Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhoi cyngor iddo;
- cyflogi staff Swyddfa Archwilio Cymru;
- sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu; a
- dal eiddo er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a swyddogaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Mae'r Bil hefyd yn gofyn bod Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn paratoi amcangyfrif o incwm a gwariant sydd yn rhaid ei osod gerbron y Cynulliad a'i gynnwys yng nghynnig cyllidebol blynyddol y Cynulliad.

Mae'r memorandwm esboniadol yn nodi bod Llywodraeth Cymru'n bwriadu i'r trefniadau newydd hyn ddod i rym erbyn 1 Ebrill 2014, yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad i'r Bil.[2]

**Mae Rhan 3** (o adran 29 i adran 37) yn cynnwys darpariaethau cyffredinol a darpariaethau canlyniadol mewn perthynas â swyddogaethau'r Cynulliad sy'n galluogi iddo wneud darpariaethau drwy reolau sefydlog o ran y swyddogaethau a roddwyd iddo gan y Bil ynghylch Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

---

[1]Llywodraeth Cymru, *Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, 9 Gorffennaf 2012 [fel ar 10 Gorffennaf 2012]
[2]Llywodraeth Cymru, *Memorandwn Esboniadol - Bil Archwilio Cyhoeddus (Cymru)*, 9 Gorffennaf 2012, paragraff 35 [fel ar 10 Gorffennaf 2012]

## 4. Goblygiadau ariannol y Bil.

**Yn ôl y memorandwm esboniadol, bydd yr opsiwn a ffefrir o fewn y Bil yn arwain at gostau trosiannol o £20,000 a chostau blynyddol o ychydig dros £150,000.**

Swyddfa Archwilio Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru fydd yn gyfrifol am y costau hyn.

### *Costau trosiannol*

- Hysbysebu swydd Cadeirydd Swyddfa Archwilio Cymru a swyddi pedwar aelod o'r bwrdd. **£20,000** (cost un-tro). Y Cynulliad fydd yn gyfrifol am y gost hon;

### *Costau blynyddol ar gyfartaledd*

- Costau rhedeg bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru: **£155,000 y flwyddyn**. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys cydnabyddiaeth, arian rhodd a lwfansau eraill y Cadeirydd a'r pedwar aelod o Swyddfa Archwilio Cymru, yn ogystal â chostau'r ysgrifenyddiaeth a chost cymorth technegol. Mae'r memorandwm esboniadol yn datgan mai Swyddfa Archwilio Cymru fyddai'n gyfrifol am y gost hon, sy'n cyfateb i 0.64% o gyllideb gyfredol Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n cael ei hariannu drwy gyfuniad o Gronfa Gyfunol Cymru ac incwm ffioedd.
- **Rôl oruchwylio gryfach i'r Cynulliad:** Bydd angen i'r Cynulliad roi trefniadau priodol yn eu lle i gyflawni ei rôl gryfach o oruchwylio Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfrifoldeb y Cynulliad yw penderfynu a ddylai hyn gael ei gyflawni drwy bwyllgor sydd eisoes yn bodoli, drwy bwyllgor newydd neu drwy gomisiwn. Bydd costau'n ddibynnol ar sut mae'r Cynulliad yn penderfynu cyflawni hyn.

Mae'r costau hyn yn ychwanegol i'r costau presennol sy'n gysylltiedig ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, sydd â chyllideb flynyddol o £24.2 miliwn.

## 5. Materion allweddol

### *Effaith ar gyllideb Swyddfa Archwilio Cymru*

Amcangyfrifir mai cyfanswm costau rhedeg Swyddfa Archwilio Cymru yw tua £155,000 y flwyddyn. Mae hyn yn cyfateb i 0.64% o gyllideb gyfredol Swyddfa Archwilio Cymru. Nid yw'r memorandwm esboniadol yn datgan a ddisgwylir i'r arian hwn ddod o gyllidebau presennol, incwm ffioedd neu ddefnydd ychwanegol o Gronfa Gyfunol Cymru. Mae hyn yn adlewyrchu annibyniaeth Swyddfa Archwilio Cymru.

### *Yr effaith ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru*

Bydd cost un-tro o £20,000 wrth recriwtio'r cadeirydd a'r pedwar aelod o'r bwrdd. Bydd hefyd gostau recriwtio os bydd angen penodi aelod newydd o'r bwrdd i gymryd lle aelod arall.

Mae rôl oruchwylio gryfach i'r Cynulliad. Mae amcangyfrif o'r costau bellach wedi cael ei ddarparu, oherwydd cyfrifoldeb y Cynulliad yw penderfynu a ddylai'r swyddogaeth hon fod yn rhan o bwyllgor sydd eisoes yn bodoli, pwyllgor newydd neu gomisiwn.

Ar hyn o bryd, y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus sy'n gyfrifol am graffu ar amcangyfrif Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r Bil hwn yn rhoi'r gallu i'r Cynulliad drosglwyddo'r cyfrifoldeb hwn i bwyllgor arall.

# Finance Committee

| | |
|---|---|
| Meeting Venue: | **Committee Room 2 – Senedd** |
| Meeting date: | **Wednesday, 4 July 2012** |
| Meeting time: | **09:00 – 11:00** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

This meeting can be viewed on Senedd TV at:
http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=en_300000_04_07_2012&t=0&l=en

## Concise Minutes:

| | |
|---|---|
| Assembly Members: | **Jocelyn Davies (Chair)**<br>**Peter Black**<br>**Christine Chapman**<br>**Paul Davies**<br>**Mike Hedges**<br>**Julie Morgan**<br>**Ieuan Wyn Jones**<br>**Jenny Rathbone** |
| Witnesses: | **Jane Hutt, Minister for Finance and Leader of the House**<br>**Jeff Andrews, Welsh Government**<br>**Margaret Davies, Welsh Government**<br>**Matthew Denham-Jones, Welsh Government** |
| Committee Staff: | **Gareth Price (Clerk)**<br>**Daniel Collier (Deputy Clerk)**<br>**Martin Jennings (Researcher)**<br>**Eleanor Roy (Researcher)**<br>**Joanest Jackson (Legal Advisor)** |

## 1. Introductions, apologies and substitutions

1.1 The Chair welcomed Members and members of the public to the meeting.

1.2 Apologies had been received from Ann Jones, for whom Jenny Rathbone was substituting.

## 2. Welsh Government Supplementary Budget 2012-2013 (Summer 2012)

2.1 The Chair welcomed Jane Hutt AM, Minister for Finance; Jeff Andrews, Specialist Policy Adviser; Margaret Davies, Head of Budget Policy; and Matthew Denham Jones, Head of Budgetary Control and Reporting.

2.2 Members scrutinised the Minister.

**Action points:**

The Welsh Government agreed to:

- Publish details of projects receiving funding from round 6 of Invest-to-Save, including how much each project received, the projected savings, details of the pay-back profile, and details of the forthcoming evaluation of Invest-to-Save;
- Provide clarification on the £1million investment in the Single Environmental Body, which was raised by the Environment and Sustainability Committee at its meeting on 27 June 2012;
- Confirm when the Committee will receive a year-end report detailing variations between actual spend and the last supplementary budget of the year.

## 3. Papers to note

3.1 The Committee noted the correspondence from HM Treasury on the consultation on new Scottish borrowing powers. The Committee agreed to respond to the consultation, outlining the findings of the inquiry into Prudential Borrowing and Innovative Approaches to Capital Funding.

3.2 The Committee noted the correspondence on its inquiry into Devolved Funding: Borrowing Powers and Innovative Approaches to Capital Funding.

3.3 The Committee noted the correspondence from the Minister for Health and Social Services regarding the Supplementary Budget 2011-2012 (Spring 2012), which would inform its scrutiny of the Supplementary Budget 2012-2013.

3.4 The Committee ratified the minutes of the previous meeting.

## 4. Motion under Standing Order 17.42 to resolve to exclude the public from the meeting for the following business:

Items 5 and 6.

## 5. Welsh Government Supplementary Budget 2012-2013 (Summer 2012) - Consideration of evidence

5.1 The Committee discussed the evidence on Welsh Government Supplementary Budget 2012-2013 (Summer 2012)

## 6. Welsh Government Draft Budget 2013-2014 - Options for appointing an expert adviser

6.1 The Committee agreed to appoint a technical advisor to assist with its scrutiny of the Welsh Government budget 2013–2014.

**Transcript**

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon